

Catchphrase 2004: Ysbyty Brynaber - Week 46

Key language

Minnau/tithau/yntau/hithau/ninnau/chithau/hwythau
Wrthi
Gwario/treulio

New Words

Trueni	a pity
Ailgylchu	to recycle
Dychmygu	to imagine
Fwdan	fuss
Gloywi	to sparkle
Dim bw na be	not a sound
Bainc	bench
Adduned Blwyddyn Newydd	New Year Resolution
Arferion drwg	bad habits
Mynd yn groes i'r arfer	to go against the trend
Croen	skin
Traed moch	a mess
Addo	to promise
Mynd yn ôl ar air	to go back on one's word
Osgo	manner
Ewyllys	will
Cyd-dynnu	to get on
Porthor	porter
Awyr iach	fresh air
Arddwrn	wrist
Hoe	a break
Y diwrnod cynt	the day before
Diddorol	interesting
Wedi'r cyfan	after all
Cywilyddus	shameful
Maddau	to forgive
Gwaetha'r modd	worst luck
Torri'r garw	to break (news) gently
Dygymod	to put up with
Pwyllo	to calm down
Llythrau	letters
Gor-yrru	speeding
Amddiffynnol	defensive
Trwydded	licence
Brith gof	a vague memory
Camgymeriad	mistake
Unman	anywhere
Cadarnhad	confirmation

Main Grammatical Points

Jenny wishes Agnes A Happy New Year – Blwyddyn Newydd Dda
Agnes replies A'r un fath i tithau

Tithau pronounced titha in north Wales and tithe in south Wales is the second person singular of the pronoun form which is used to convey the meaning – and you as well or you also.

The full forms are:

minnau or finnau
tithau
yntau
hithau
ninnau
chithau
hwythau

Generally these forms are preceded by **a** meaning **and** for example
a finnau - and me, a chithau - and you, a hwythau and them

Gwario/treulio

Agnes asks: Sut wnest ti dreulio'r diwrnod yn y diwedd.
How did you spend the day in the end.

You have probably come across the other form in Welsh for to spend – to spend money. **Gwario**
Dw i wedi gwario llawer o arian yn ystod y Nadolig.
I've spent a lot of money over Christmas.

Note however that when someone is referring to spending time the verb form in Welsh is **treulio**
Treuliais i wythnos yn sgïo yn yr Alpau
I spent a fortnight skiing in the Alps
Look out for these differences.
Dw i wedi treulio oriau yn chwilio am y llyfr yna
I've spent hours looking for that book

Wrthi

You have already come across wrth meaning by - wrthi hi by her. Or with the verb dweud - dweud wrthi to tell her.
Wrthi on its own however has completely different meaning.

Agnes says: Wrthi'n rhoi'r holl gardiau Nadolig 'ma heibio ydw i.
I'm hard at it putting the Christmas cards to keep.
Wrthi in this context means – busy or hard at it

Wyt ti'n dal wrthi?
Are you still busy?

Maen nhw wrthi'n chwilio am y ferch fach.
They're hard at it looking for the little girl.

And now some more useful words and expressions that feature in this week's episodes.

Ysbyty Brynaber: Episode 136

Agnes and Jenny discuss the holidays – Jenny is not too keen to talk about what actually happened on Christmas day.

Agnes Later meets Arwyn. He divulges the whole story about Christmas day at the Saunders household.

Geirfa

Trueni	a pity
Ailgylchu	to recycle
Dychmygu	to imagine
Fwdan	fuss
Gloywi	to sparkle
Dim bw na be	not a sound
Bainc	bench
Adduned Blwyddyn Newydd	New Year Resolution
Arferion drwg	bad habits
Mynd yn groes i'r arfer	to go against the trend
Croen	skin
Traed moch	a mess
Addo	to promise
Mynd yn ôl (ar air)	to break a promise (go back on one's word)
Osgo	manner
Ewyllys	will
Cyd-dynnu	to get on

Golygfa 1

Agnes - Dewch i mewn/Come in...

Jenny - Blwyddyn Newydd Dda..

Agnes - A'r un fath i tithau.

Jenny - Diolch yn fawr iawn.

Agnes - Wrthi yn rhoi'r holl gardiau Nadolig yma heibio ydw i...

Jenny - Mi wnes i hynny neithiwr.

Agnes - Trueni eu taflu nhw i'r bin hefyd.

Jenny - Pam na wnei di eu hailgylchu nhw? Dyna beth wnes i.

Agnes - Ie. Pam lai? Syniad da. Eistedda?

Jenny - Na. Dw i ar fy ffordd i'r Out-patients.

Agnes - Mmmm-hmmm.

Jenny - Sut Nadolig gest ti?

Agnes - Pysur.

Jenny - Alla i ddychmygu...A gafodd Rhodri a Beca eu anrhegion i gyd gan Sion Corn?

Agnes - Do. Popeth. Hyd yn oed y doli 'Deep Sea Diver'...

Jenny - Doli 'Deep Sea Diver'?

Agnes - I Beca. Paid â gofyn pam. Ond dyna beth oedd hi'n moyn. A dyna beth gafodd hi wedi yffach o lot o fwdan.

Jenny - Gafodd hi ei phlesio...?

Agnes - Do. Roedd ei llygaid bach hi'n gloywi fore dydd Nadolig. A chlywodd Brian a fi ddim bw na be ganddi am oriau wedyn. Aeth hi lan i roi doli yn y bath...

Jenny - Braf gweld plant yn chwarae'n hapus...

Agnes - Ac fe chwaraeodd hi trwy'r dydd. A beth amdanat ti? Sut Nadolig gest ti?...

Jenny - Well i mi fynd...

Agnes - Sut wnest ti dreulio'r diwrnod yn y diwedd?

Jenny - Rôn i'n gweithio yma yn y bore.

Agnes - Felly, est ti ddim at Arwyn a'i fam?

Jenny - Do. Do, mi wnes i. Am ginio.
 Agnes - A sut roedd pethau?
 Jenny - Wel...stori hir...Rhy hir o'r hanner i mi ddweud y cwbwl wrthot ti rwan ...
 Agnes - Ond oedd pethau'n iawn oedden nhw?
 Jenny - Gweddol, rho hi felly.
 Agnes - Pam 'te?
 Jenny - Agnes, sori, ond mae'n rhaid imi fynd. Mi gei di glywed yr hanes i gyd gen i rywbyrd eto.
 Iawn?
 Agnes - Iawn.

Golygfa 2

Agnes - Mas fan hyn wyt ti...
 Arwyn - Ie...
 Agnes - Ydy hi'n iawn i fi eistedd ar y fainc 'ma?
 Arwyn - Wrth gwrs. Mae gardd yr ysbyty yn agored i bawb.
 Agnes - Ti'n smoco!
 Arwyn - Adduned blwyddyn newydd.
 Agnes - Fel arfer, gwneud addunedau mae pobol er mwyn rhoi'r gorau i arferion drwg.
 Arwyn - Dw i wedi penderfynu mynd yn groes i'r arfer. Od on'd ydy hi?
 Agnes - Beth?
 Arwyn - Bod haul mis Ionawr yn gallu bod mor dwym. Mae'n deimlad braf ar groen rhywun.
 Agnes - Ydy. Sut aeth y Nadolig?
 Arwyn - Fe aeth e. Diolch byth.
 Agnes - Aeth pethau ddim yn dda iawn 'te?
 Arwyn - Aeth pethau'n ofnadwy...
 Agnes - Oes hawl 'da fi ofyn pam? Neu ydw i'n busnesa?
 Arwyn - Na, na. Aeth popeth yn draed moch...
 Agnes - Sut?
 Arwyn - I ddechre fe wnaeth Jenny addo byddai hi'n dod at Mam a fi am gino Nadolig...
 Agnes -Ie? A beth ddigwyddodd?
 Arwyn - Wel, aeth hi yn ôl ar ei gair...
 Agnes - Sut?
 Arwyn - Trwy benderfynu gweitho dydd Nadolig...Ond roedd hi wedi rhoi ei gair i fi, wyt ti'n gweld...Roedd hi wedi addo y byddai hi'n dod at Mam a fi am gino Nadolig...Ac rôn i'n benderfynol ei bod hi'n mynd i gadw at ei gair...
 Agnes - A wnaeth hi gadw at ei gair?
 Arwyn - Do. Ond yn hollol groes i'w hewyllys...A phan ddaeth hi trwy'r drws tua hanner dydd rôn i'n gwybod ei bod hi mewn tymer ofnadwy...Rôn i'n gallu dweud wrth ei hosgo hi...
 Agnes - Dydy Jenny na dy fam erioed wedi gallu cyd-dynnu, ydyn nhw?
 Arwyn - Nac ydyn. Ddim o gwbl. A dydd Nadolig aeth popeth yn draed moch. Rôn i am i Jenny a fi ddweud wrth Mam ein bod ni wedi gwahanu...Rhoi rhyw fath o 'common front' ymlaen...Ond fe ddwedodd Jenny wrthi'n syth...Ac aeth Mam yn 'hysterical'...
 Agnes - 'Hysterical'?
 Arwyn - Do. Hollol 'hysterical'. Rôn i'n amau ei bod hi'n mynd i gael ffit. Dechreuodd hi alw Jenny yn bob math o enwau o dan haul ... Roedd y peth yn ofnadwy...A wnaeth Jenny ddim byd ond troi ar 'i sawdl a cherdded mas o'r ty a chau y drws yn glep...A dyna beth oedd Nadolig Llawen...

Ysbyty Brynaber: Episode 137

Wendy calls to see Brian in the garage.

Arwyn and Jenny meet up in the hospital. They discuss what happened over Christmas.

Geirfa

Porthor	porter
Awyr iach	fresh air
Arddwrn	wrist
Hoe	a break
Y diwrnod cynt	the day before
Diddorol	interesting
Wedi'r cyfan	after all
Cywilyddus	shameful
Maddau	to forgive
Gwaetha'r modd	worst luck
Torri'r garw	to break (news) gently
Dygymod	to put up with

Golygfa 1

Brian - ...meddw gaib am bythefnos? Ha! Ar yr hen 'home brew' ofnadwy 'na sy gen ti'n stiwiw yng nghwt yr ardd, ia? Ydy, ti'n iawn, Jac, mae hi'n braf bod yn ôl yn y gwaith...Ti'n troi'n gymaint o slob tros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd... Gorwedd, bwyta, yfed.....Mae'n well i fi fynd oddi ar y ffôn...Na, mae gen i gwsmer yn sefyll o mlaen i'n fan 'ma...lawn...Edrych ymlaen i dy weld di draw yma cyn bo hir...!

Wendy - Heia...

Brian - Hi. ...Dy lofnod ar y darn papur 'ma, Keith...Yn fan 'na, ia...Diolch...Hwyl iti...

Wendy - Keith? Ddim Keith Harries oedd hwnna?

Brian - Ia. Pam? Ti'n ei nabod o?

Wendy - Ydw...Wel, ddim mor dda a hynny...Ond oedd e'n borthor lan yn yr ysbyty...

Brian - Mae o wedi gorffen yno...

Wendy - Pam?

Brian - Mae o newydd ddod allan o'r carchar jest cyn y Nadolig...

Wendy - You're kidding me?

Brian - Oedd yr hanes yn y papura newydd nôl dros yr ha'...Ti ddim yn cofio?

Wendy - Alla i'm dweud fy mod i...

Brian - Gest di betrol?

Wendy - Naddo. I just felt a bit cooped up in the flat. Ac eisiau mynd mas am dipyn bach o awyr iach...Dyna pam ddes i mas i fan hyn i dy weld ti...

Brian - Dw i braidd yn brysur fel rwyd ti'n gweld.

Wendy - Wyt ti'n gwybod beth fydden i wir yn lico?

Brian - Nac ydw ...Beth?

Wendy - Mynd i fwrdd i rywle twym...Fel Lanzarote...Neu rhyw ynys arall...

Brian - Mae pawb yn teimlo felly ar ôl y 'Dolig. Yn enwedig hefo'r holl hysbysebu gwylia ar y teli...

Wendy - I flew away this time last year...

Brian - O, do? I ble?

Wendy - Stansted i Nice. Then stayed in the French Alps.

Brian - Hefo criw o nyrsus?

Wendy - Na. With my then boyfriend. Richard Allen. Doedd e ddim yn success. A gweud y gwir roedd e'n total disaster...Ti byth yn mynd i gredu beth wnes i...Colli gwerth £500 o euros...

Brian - Bobol bach! Sut?

Wendy - Eu rhoi nhw yn y siwtces...I wasn't really thinking straight after I lost my father... Ti ffansi mynd â fi off i rywle twym 'te?

Brian - Mi faswn i wrth fy modd. Ond dw i ddim yn meddwl fod gen i'r amser, Wendy...

Golygfa 2

Arwyn - Jenny?

Jenny - ...Arwyn...

Arwyn - Oes amser 'da ti am ddishgled?

Jenny - Nac oes... Dw i ar fy ffordd i Ward y Plant...Mae gen i achos o greenstick fracture...Hogyn bach wyth oed...

Arwyn - Beth mae e wedi dorri? Coes neu fraich?

Jenny - Arddwrn... Pam wyt ti'n ogleuo o fwg sigarets?

Arwyn - Dw i wedi dechrau ysmygu unwaith eto... Sa i wedi gweld ti ers sbel fach...

Jenny - Es i i ffwrdd am hoe fach dros y Flwyddyn Newydd.

Arwyn - A! Fyddai hynny'n egluro'r peth 'te.

Jenny - Egluro beth?

Arwyn - Alwes i heibio'r fflat nos Calan gyda potel o win...A canu'r gloch - ond doedd dim ateb....

Jenny - Na. Rôn i wedi mynd i ffwrdd y diwrnod cynt.

Arwyn - I ble 'te? Rhywle diddorol?

Jenny - Dim ond i westy bach i lawr yn Ninbych-y-Pysgod.

Arwyn - Ar dy ben dy hunan?

Jenny - Mae'n well imi fynd am Ward y Plant...

Arwyn - Jenny? Cyn iti fynd...Liciwn i alw heibio'r fflat rywbyrd...Wedi'r cyfan, sa i wedi bod i'w weld e, ydw i?

Jenny - Wyt ti wir isio'i weld o?

Arwyn - Ydw. Wrth gwrs fy mod i eisiau.

Jenny - Ar ôl ffradach Diwrnod Nadolig hefo dy Fam - dôn i ddim yn meddwl y baset ti eisiau torri gair hefo fi byth eto...

Arwyn - Rôdd beth ddigwyddodd gyda Mam ychydig bach yn anffodus mae'n rhaid i mi gyfaddef.

Jenny - Ychydig bach yn anffodus? Rôn i'n meddwl bod y ffordd wnaeth hi ymateb yn hollol gywilyddus...A'r pethau wnaeth i fy ngalw i...Dw i'm yn siwr alla i faddau iddi byth eto...

Arwyn - Rôt ti ar fai yn dweud wrthi mor blwmp ag mor blaen ein bod ni wedi gwahanu...

Jenny - Fi ar fai? Ti oedd ar fai.

Arwyn - Ddwedes i ddim gair mas o mhen...

Jenny - A dyna'r drwg! Petaet ti wedi dweud wrthi cyn iddi ddod am ginio Diwrnod Nadolig mi fasai pethau wedi bod yn iawn...

Arwyn - Wel, rôn i'n meddwl y gallet ti a fi fod wedi dweud wrthi yn dawel ar ôl cinio...

Jenny - Pam na faset ti wedi bod yn ddigon o ddyn i ddweud wrth dy fam cyn y Nadolig? Wedi'r cwbl, y ti ydi ei mab hi. A petai hi'n fam i mi, mi faswn i wedi hen ddweud wrthi.

Arwyn - Rôn i'n trio peidio ei ypsetio hi...

Jenny - A trwy osgoi torri'r garw, mi lwyddaist ti i'w hypsetio hi'n waeth o'r hanner. On'd do?

Arwyn - Do, yn anffodus. A gwaetha'r modd, dyw hi ddim wedi dygymod â'r peth...

Jenny - Wel, dygymod fydd yn rhaid iddi...

Ysbyty Brynaber: Episode 138

The Rees family are having breakfast. A letter from the police arrives for Brian. Agnes questions why he should have been caught speeding in south Wales when he was supposed to be on a business trip in the Midlands.

Geirfa

Pwyllo	to calm down
Llythyrau	letters
Gor-yrru	speeding
Amddiffynnol	defensive
Trwydded	licence
Brith gof	a vague memory
Camgymeriad	mistake
Unman	anywhere
Cadarnhad	confirmation

Golygfa 1

Agnes - Rhodri! Beca! Dewch nawr. Mae brecwast ar y ford...Hei, pwylla nawr...
...Ydy Beca wedi codi eto...?

Rhodri - Ydy...Mae hi yn yr ystafell ymolchi...

Agnes - Iawn...O, does dim byd tebyg i ddishgled dda o de, nac oes? Paid a stwffo
nawr...Mae'r post yn gynnwys bore 'ma...

Rhodri? Beth wyt ti'n wneud?

Rhodri - Nôl y llythyrau...

Agnes - Dere weld beth sydd yma...Bil dwr...Bil trydan...

Rhodri - Oes rhywbeth i fi?

Agnes - Sa i'n credu hynny...

Brian - Bora da, Rhodri...Sut wyt ti heddiw?

Rhodri - Wy fel y boi....

Brian - Oes yna de ar ôl yn y tebot 'ma?

Agnes - Dim ond newydd ei wneud e jest nawr ydw i.

Brian - Mae'r post wedi cyrraedd yn barod?

Agnes - Am ryw reswm ddaeth e'n gynnwys bore 'ma.. O, yffach...

Brian - Beth?

Agnes - Ti wedi cael dirwy a tri pwynt...Gor-yrru eto, ie?

Brian - Gad imi ei weld o...

Agnes - Hei, dal ymlaen am eiliad...

Brian - Tyrd â fo imi...

Agnes - Paid, paid...Beth ddiawl yw hyr? Heddlu De Cymru yw hwn...Ac rwyd ti i fod i dalu'r ddirwy i

Glerc Llys Ynadon Pontypridd....

Brian - Agnes - alla i ei weld o?

Agnes - Gest i dy ddal ar Ragfyr yr unfed ar ddeg...

Brian - Ga i ei weld o, plis?

Agnes - Ble oedd ti 'te?

Brian - Fy llythyr i ydy o. Felly ga i ei weld o, plis?

Agnes - Pam wyt ti mor amddiffynnol?

Brian - Tyrd â fo imi...Diolch.

Agnes - Cer i weld ble mae Beca, Rhodri...A dwed wrthi am wisgo ar unwaith...

Rhodri - Iawn.

Agnes - Speed cop, ie?

Brian - Nage. Speed camera. Ges i'n fflashio.

Agnes - Sawl pwynt sydd 'da ti ar dy drwydded nawr 'te?

Brian - Gormod o'r hanner...

Agnes - Beth? Wyt ti'n debygol o golli dy drwydded?

Brian - Siwr o fod.

Agnes - O, Brian! Sut fuest ti mor esgeulus, dwed?

Brian - Pethau slei ydy'r camerâu 'ma ynte. Rwyd ti wedi cael dy ddal cyn iti hyd yn oed eu gweld nhw...

Agnes - Ond pe byddet ti'n gyrru'n gall, fe fyddet ti'n iawn... Ble gest ti dy ddal, 'ta beth?

Brian - Wn i ddim?

Agnes - Rhywle yn Ne Cymru mae'n amlwg...Ar yr unfed ar ddeg o Ragfyr...Pa ddiwrnod oedd hwnnw? Gad i fi edrych ar y calendar yma...

Brian - Oes ots?

Agnes - Dydd lau...Nid ti oedd e!

Brian - Beth?

Agnes - Mae'n hollol amhosib. Doeddet ti ddim yn Ne Cymru ar yr unfed ar ddeg o Ragfyr...Rôt ti ar dy ffordd nôl o Salford...Wedi iti fod yn y sêl geir 'na yn Blackfriars Road...Ti'n cofio?

Brian - O, ia...Mae gen i rhyw friith go...

Agnes - Mae camgymeriad wedi bod on'd oes?

Brian - Mae'n rhaid...

Agnes - Wrth gwrs fod...Doeddet ti ddim yn unman yn Ne Cymru bryd hynny oeddet ti?

Brian - Gad imi feddwl yn ôl...Na. Mi ôn i yn Ne Cymru ar yr unfed ar ddeg o Ragfyr...

Agnes - Ond ddwedest ti ddim byd wrtho i.

Brian - Es i draw i'r Rhondda yn syth o Salford hefo Jac Whelan. Roedd o a fi isio edrych ar geir gan 'dealer' wnaethon ni gyfarfod yn sêl Blackfriars Road...

Rhodri - Wyt ti eisiau i fi sgrwbo rhew oddi ar ffenest y car, mam?

Agnes - Diolch iti Rhodri...

Brian - Agnes, edrycha...Mae'n amlwg o dy edrychiad di dy fod ti ddim yn fy nghoelio fi. Ond dyna'r gwir. Rôn i yn y Rhondda hefo Jac Whelan. Wir iti. Ac os wyt ti isio cadarnhad, gofyn iddo fo...

Synopsis

Arwyn related the story of Christmas lunch to Agnes. There had been an almighty row between Jenny and her mother in law ending in Jenny storming out of the house.

The postman arrived with an unwelcome letter for Brian. It was from police stating that he had been caught on a speed camera in south Wales. Agnes was puzzled how this had happened. After all Brian had told his wife that he was in the Midlands on that date. Agnes was pretty dubious about Brian's story.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'and you'?
 - a) a minnau
 - b) **a tithau**
 - c) ac yntau
-
2. How would you say 'She's busy' in Welsh?
 - a) Mae e'n gweithio
 - b) Mae hi'n gweithio
 - c) **Mae hi wrthi**
-
3. How would you say 'I spent a week in Spain' in Welsh?
 - a) Gwarias i wythnos yn Sbaen
 - b) Gwariais i fis yn Sbaen
 - c) **Treuliais i fis yn Sbaen**
-
4. What is 'A New Year's Resolution' in Welsh?
 - a) Blwyddyn Newydd Dda
 - b) **Adduned Blwyddyn Newydd**
 - c) Penderfyniad Blwyddyn Newydd
-
5. How would you say 'This place is in a terrible mess' in Welsh?
 - a) **Mae'r lle yma'n draed moch**
 - b) Mae'n ofnadwy yna
 - c) Mae'r lle yma'n glustiau moch
-
6. What is the Welsh for 'She's broken a promise'?
 - a) Mae hi wedi torri gair
 - b) **Mae hi wedi mynd yn ôl ar ei gair**
 - c) Mae hi wedi gwneud adduned